# Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

**2014 dccc 6**

*Cyffredinol*

## 15 Troseddau gan gyrff corfforaethol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan gyflawnir trosedd o dan y Ddeddf hon gan gorff corfforaethol.

(2) Os profir bod y drosedd wedi ei chyflawni â chydsyniad neu gydgynllwyn y canlynol, neu ei bod i'w phriodoli i esgeulustod ar ran y canlynol—

(a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd y corff corfforaethol, neu

(b) unrhyw berson a oedd yn honni ei fod yn cyflawni rôl o'r fath,

mae'r cyfarwyddwr, y rheolwr, yr ysgrifennydd neu'r person hwnnw a oedd yn honni cyflawni rôl o'r fath (yn ogystal â'r corff corfforaethol) yn euog o'r drosedd ac yn atebol i gael achos yn ei erbyn a chael ei gosbi'n unol â hynny.

(3) Mae'r cyfeiriad at gyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd y corff corfforaethol yn cynnwys cyfeiriad at—

(a) unrhyw swyddog tebyg yn y corff;

(b) pan fo'r corff yn gorff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, unrhyw swyddog neu aelod o'r corff hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 15 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 19**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, Adran 15.